Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Gylch Meithrin Plant Bach Sarn
Canolfan Dysgu Gydol Oes Sarn
Merfield Close
Sarn
Pen-y-bont ar Ogwr
CF32 9SW

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2017**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn.

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2018: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 25/01/2018**

## Cyd-destun

Lleoliad cyfrwng Cymraeg yw Cylch Meithrin Plant Bach Sarn, sydd yn cwrdd mewn ystafell yng nghanolfan dysgu gydol oes Sarn, yn awdurdod lleol Pen-y-bont ar Ogwr. Mae'r lleoliad yn agor am bum sesiwn yr wythnos rhwng 9.15 y bore a 1.15 y prynhawn.  Mae'r lleoliad yn darparu addysg a gofal yn ystod yr oriau hyn.

Mae'r lleoliad wedi'i gofrestru i gymryd hyd at 24 plentyn ar unrhyw adeg benodol ac yn derbyn plant rhwng dwy a thair oed.  Nid oes un plentyn yn cael addysg y blynyddoedd cynnar wedi'i hariannu ar hyn o bryd.  Mae Dechrau'n Deg yn ariannu llawer o'r plant dwy flwydd oed.

Mae bron pob un o'r plant yn dod o gefndir gwyn Prydeinig ac ychydig iawn ohonynt sy'n siarad Cymraeg fel eu mamiaith.  Ar hyn o bryd, ychydig o'r plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae'r lleoliad yn cyflogi pump aelod o staff yn ystod yr wythnos.  Dechreuodd yr arweinydd yn ei swydd ym mis Medi 2001.

Arolygwyd y lleoliad gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ddiwethaf ym mis Ionawr 2017 a gan Estyn ym mis Mai 2012.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn dda oherwydd bod:

- ymarferwyr yn cynllunio profiadau dysgu yn drwyadl i herio'r plant yn llwyddiannus
- addysgu ysgogol yn gwella deilliannau'r plant yn bwrpasol
- ymarferwyr yn cydweithio'n gyson i wella profiadau dysgu a safonau'r plant
- y ddarpariaeth ar gyfer y Gymraeg yn effeithiol
- gofal diwyd a synhwyrol yr ymarferwyr yn creu awyrgylch hapus a gweithgar
- amgylchedd dysgu effeithiol yn ennyn diddordeb y plant yn llwyddiannus
- ystod o adnoddau ar gael i blant tu fewn i'r adeilad ac yn yr awyr agored, sy'n effeithio'n bwrpasol ar eu profiadau a'u dysgu

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r lleoliad yn dda oherwydd bod:

- yr arweinydd yn gosod cyfeiriad cadarn a chlir i waith y lleoliad
- systemau hunanarfarnu rheolaidd a phriodol yn arwain at osod targedau perthnasol
- ymarferwyr yn awyddus i ddatblygu'n broffesiynol a mynychu hyfforddiant defnyddiol
- defnydd cydwybodol o wasanaethau cymorth
- cefnogaeth weithredol a phwrpasol gan y pwyllgor rheoli
- partneriaethau defnyddiol gyda'r rhieni ac asiantaethau arbenigol
- defnydd synhwyrol o gyllid i sicrhau gwelliannau yn y ddarpariaeth fewnol a'r ardal allanol

## Argymhellion

A1 Lleihau'r gwaith papur ynglŷn â'r cynllunio er mwyn gweithredu system symlach

A2 Gwella'r cyfleoedd i blant symud yn annibynnol rhwng yr ardal fewnol a'r ardal allanol

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | |
|---|---|

**Safonau:**

**Lles:**

Nid oes unrhyw adroddiad ar gynnydd plant, safonau yn natblygiad eu medrau, yr iaith Gymraeg a lles. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant perthnasol yn bresennol adeg yr arolygiad i adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r arweinydd a'r ymarferwyr yn cydweithio'n effeithiol i ddarparu gweithgareddau cyffrous ar draws yr holl feysydd dysgu. Mae eu gwaith dyddiol yn ennyn diddordeb y plant yn fwriadus. Mae hyn yn creu dysgwyr annibynnol a brwdfrydig wrth weithio tu fewn a thu allan i'r adeilad. Er enghraifft, maent yn cymell y plant i ddysgu'n ymarferol trwy chwarae rôl yn y gegin fwd a mesur taldra ei gilydd yn swyddfa'r heddlu. O ganlyniad, maent yn darparu cwricwlwm difyr, sy'n adlewyrchu ethos y cyfnod sylfaen yn bwrpasol. Mae'r cynllunio ar gyfer profiadau dysgu yn drwyadl iawn ac yn bodloni anghenion a diddordebau'r plant yn llwyddiannus. Fodd bynnag, er bod y systemau cynllunio'n effeithiol, maent yn llafurus a chymhleth a'r gwaith papur yn creu baich gwaith gormodol i'r arweinydd a'r ymarferwyr.

Mae'r holl ymarferwyr yn trafod cynnydd plant unigol mewn cyfarfodydd rheolaidd, ac yn trefnu themâu a gweithgareddau ar sail hyn. Maent yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i'r plant leisio eu syniadau personol i gyfoethogi'r gweithgareddau ymhellach. Mae hyn yn cynnwys cyfatebu rhifau ar gerbydau â mannau parcio yn yr ardal allanol a defnyddio chwyddwydrau i ddarganfod a rhifo olion bysedd yn yr ardal ymchwilio. Mae'r gweithgareddau hyn yn ychwanegu'n gadarnhaol tuag at frwdfrydedd dyddiol y plant wrth iddynt ddysgu trwy chwarae.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau llythrennedd, rhifedd, technoleg gwybodaeth (TGCh) a medrau meddwl y plant yn bwrpasol. Mae gweithgareddau llythrennedd a rhifedd yn amlwg ym mhob maes dysgu ac yn herio'r plant i berfformio ar eu gorau'n gyson. Gwelir enghreifftiau ymarferol effeithiol o hyn wrth i blant drafod nodweddion yr hydref drwy gasglu dail a brigau yn yr ardal gyfagos ac wrth iddynt ymdrechu i greu llythrennau gwahanol gyda'i bysedd yn yr eli eillio. O ganlyniad, mae'r profiadau dysgu yn bwrpasol ac yn cynnig dilyniant a pharhad synhwyrol yn dysgu'r plant.

Mae datblygu'r iaith Gymraeg yn fuddiol i'r plant. Mae bron pob un o'r ymarferwyr yn fodelau cyson dda o'r iaith. Maent yn cynorthwyo'r plant sy'n dechrau dysgu'r iaith yn llwyddiannus. Mae'r ymarferwyr yn annog plant i ddefnyddio'r iaith cymaint ag y bo modd trwy weithgareddau ysgogol ac atgyfnerthu rheolaidd. Maent yn herio a holi'r plant yn bwrpasol yn yr ardaloedd dysgu dan do ac awyr agored. O ganlyniad, mae dealltwriaeth rhan fwyaf y plant o'r iaith yn datblygu'n sylweddol ac maent yn ymateb â geirfa ac ymadroddion cyfarwydd mewn amser byr.

Mae'r lleoliad yn hyrwyddo ymwybyddiaeth y plant o draddodiadau, dathliadau a diwylliant Cymru'n llwyddiannus. Mae'r gweithgareddau hyn yn cynnwys dathlu Dydd Gŵyl Dewi a Diwrnod Santes Dwynwen a choginio prydau traddodiadol fel cawl.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu TGCh yn effeithiol. Mae'r lleoliad yn cynllunio cyfleoedd defnyddiol i'r plant arbrofi ag ystod eang o offer fel camerâu, llechi electronig a theganau i'w rhaglennu. Mae pob ymarferwr yn herio plant yn effeithiol, gan ddefnyddio meddalwedd ac apiau addysgol yn y Gymraeg. Mae hyn yn datblygu medrau TGCh cynnar rhan fwyaf y plant yn llwyddiannus.

Mae'r ymarferwyr yn canolbwyntio ar ddatblygu medrau corfforol y plant yn ddeallus. Maent yn gadael iddynt ddringo cyfarpar anturus a llithro i'r llawr yn annibynnol a gyrru beiciau'n fywiog i wella'u profiadau corfforol. Mae'r ymarferwyr yn cynllunio cyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu eu medrau creadigol trwy ddefnyddio sialc a dŵr i wneud marciau yn yr ardal allanol a defnyddio offerynnau cerddorol a chlychau yn fwriadus i greu synau anarferol.

Mae'r lleoliad yn gwneud defnydd buddiol o ymweliadau ac ymwelwyr i gyfoethogi profiadau dysgu'r plant. Er enghraifft, mae'r profiadau fel ymweliadau i lan y môr, amgueddfeydd yng Nghaerdydd, siopau lleol, y swyddfa bost a'r llyfrgell yn atgyfnerthu'r cwricwlwm yn effeithiol. Mae ymwelwyr fel yr heddlu, nyrs a glanweithydd deintyddol yn addysgu'r plant yn llwyddiannus am rolau pobl yn eu cymuned.

### Addysgu: Da

Mae gan yr ymarferwyr ddisgwyliadau uchel ar gyfer y plant ac maent yn eu herio'n gyson mewn tasgau ffocws a gweithgareddau parhaus. Maent yn ymyrryd yn bwrpasol ym mhrofiadau a chwarae'r plant er mwyn eu hysgogi a'u cymell i lwyddo. Maent yn deall pwysigrwydd darparu cyfleoedd eang i ddysgu trwy chwarae. Enghraifft effeithiol o hyn yw arbrofi wrth adeiladu tyrrau yn yr ardal adeiladu a threfnu te parti i ddoliau wrth ymyl y gegin fwd.

Mae'r holl ymarferwyr yn meddu ar wybodaeth gyfoes am ddatblygiad plant ac yn wybodus ynglŷn â gofynion y cyfnod sylfaen. Maent yn rheoli ymddygiad plant yn gadarnhaol a diogel wrth osod ffiniau cadarn yn eu lle trwy gydol y sesiwn. Mae hyn yn annog cyfranogiad a mwynhad y plant yn llwyddiannus ym mhob gweithgaredd.

Mae'r ymarferwyr yn annog y plant i gymryd rhan mewn gweithgareddau amrywiol yn effeithiol. Fodd bynnag, nid yw hyn yn sicrhau cyfleoedd rheolaidd i'r plant symud yn rhydd rhwng yr ardaloedd tu fewn a thu allan. Mae hyn yn cyfyngu rhywfaint ar allu'r plant i wneud dewisiadau ynglŷn â'u dysgu. Mae'r ymarferwyr yn defnyddio holi'n bwrpasol i ddatblygu medrau meddwl a chyfathrebu'r plant. Gwneir hyn yn fedrus wrth drafod teimladau carcharwr yng ngorsaf yr heddlu a chyflymder peli gwahanol wrth iddynt gael eu gyrru i lawr silindrau hir yn yr ardal allanol.

Mae'r gweithdrefnau ar gyfer asesu a chofnodi cyflawniadau plant yn effeithiol. Mae ymarferwyr yn trafod yn synhwyrol gyda'r plant beth sydd angen iddynt ei wneud i wella'u gwaith. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o ddeilliannau plant, er enghraifft gan ddefnyddio proffil y cyfnod sylfaen. Mae ymarferwyr yn defnyddio'r trefniadau asesu fel arfarniadau a thrafodaethau bob dydd i gynllunio camau nesaf yn dysgu'r plant yn bwrpasol.

Mae'r lleoliad yn hysbysu rhieni a gofalwyr yn gyson am gyflawniadau eu plant. Mae'r deialog dyddiol rhwng yr ymarferwyr a'r rhieni a gofalwyr yn atgyfnerthu hyn yn dda. Ar ddiwedd eu hamser yn y lleoliad, mae gwybodaeth gynhwysfawr am gyflawniad eu plant ar gael i rieni drwy lyfrynnau defnyddiol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r lleoliad yn cynnig cyfleoedd cadarnhaol i hybu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y plant. Mae ymarferwyr yn defnyddio sesiynau torfol bywiog yn llwyddiannus i annog y plant i gyfarch ei gilydd, i fyfyrio am deimladau eraill a dweud diolch. Mae dulliau synhwyrol yr ymarferwyr yn meithrin gwerthoedd fel gonestrwydd, tegwch a pharch yn llwyddiannus ymysg y plant. Mae hyn yn atgyfnerthu pwysigrwydd y gwerthoedd hyn ym mywyd dyddiol y lleoliad. Enghraifft effeithiol o hyn yw'r system 'helpwr y dydd', sy'n pennu dyletswyddau i unigolion ac yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i bob plentyn feithrin cyfrifoldeb yn eu tro. O ganlyniad, mae'r plant yn gwrtais wrth fwyta byrbrydau a gweini llaeth a dŵr o amgylch y bwrdd bwyta.

Mae trefniadau effeithiol yn bodoli i gefnogi iechyd a lles y plant. Mae'r trefniadau hyn yn cyfrannu'n dda at ddatblygiad a lles cyffredinol y plant ac yn cefnogi eu dysgu'n llwyddiannus, fel hyrwyddo gweithgareddau i gyflymu'r galon yn yr ardal allanol. Mae gan y lleoliad drefniadau cadarn i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. O ganlyniad, mae'r plant yn deall bod ffrwythau a llysiau'n rhan o ddiet synhwyrol. Mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd rheolaidd i blant i ailgylchu papur, cardfwrdd, plastig, bwyd a chyfle i gompostio yn yr ardal allanol. Mae hyn yn datblygu eu dealltwriaeth o gynaliadwyedd yn bwrpasol.

Mae ymarferwyr yn defnyddio strategaethau ymddygiad cadarnhaol, sy'n dileu unrhyw aflonyddwch neu ymddygiad annerbyniol yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae'r plant yn hapus ac yn ddiogel yng nghwmni oedolion ac maent yn aml yn gofyn am gymorth a chefnogaeth heb bryder. Mae'r lleoliad yn amgylchedd diogel ac mae'r ymarferwyr yn cymryd gofal da o blant pan fyddant yn cyrraedd a phan fyddant yn cael eu casglu. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r lleoliad yn cofnodi anghenion dysgu plant yn drwyadl pan fyddant yn ymuno â'r lleoliad, ac yn ystod eu cyfnod yno. Mae'r cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol yn adolygu cynnydd plant yn rheolaidd. Mae hi'n nodi eu mannau cychwyn yn drylwyr trwy ddilyn canllawiau proffil y cyfnod sylfaen. O ganlyniad, mae'r lleoliad yn targedu plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn effeithiol pan fydd angen. Mae'r ymarferwyr yn trafod y plant hyn gyda'r asiantaethau priodol, fel y lleferydd iaith, i ddarparu cymorth cyn gynted ag y bo modd i dargedu anghenion unigolion.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r lleoliad yn hyrwyddo ethos cefnogol drwy weithgareddau dyddiol a'r agweddau cadarnhaol a fabwysiadir gan yr ymarferwyr. Mae'n gymuned gynhwysol lle caiff yr holl blant fynediad cyfartal i'r holl feysydd dysgu a'r offer. Mae gan yr ymarferwyr adnabyddiaeth drylwyr o bob plentyn ac mae eu hunigolrwydd yn cael ei gydnabod yn llwyddiannus trwy drafodaethau dyddiol a chofnodion manwl. Mae'r ymarferwyr yn herio plant yn ddyddiol mewn moddau cadarnhaol, gofalus a thyner.

Mae'r ymarferwyr yn rhoi pwyslais clir ar gydnabod, parchu a dathlu amrywiaeth. Mae'r lleoliad yn cyflawni hyn yn llwyddiannus trwy ddathlu nifer o wyliau o bob cwr o'r byd yn flynyddol, fel Rosh Hashanah, Holi a Hanukkah. Yn ogystal, mae'r lleoliad yn defnyddio doliau o wahanol gefndiroedd ethnig i hyrwyddo gwahaniaethau diwylliannol yn bwrpasol.

Mae ymarferwyr yn defnyddio adnoddau'n llwyddiannus i fodloni gofynion y cyfnod sylfaen ac anghenion y plant. Maent yn sicrhau bod adnoddau o fewn cyrraedd y plant ac mae'r plant yn gallu cyrraedd y cyfarpar heb drafferth. Mae hyn yn hyrwyddo eu synnwyr o gyfrifoldeb yn llwyddiannus, wrth iddynt drafod llyfrau, defnyddio llechi electronig a gwneud marciau gyda sialc a dŵr yn yr ardal allanol. O ganlyniad, caiff ystod eang yr adnoddau eu defnyddio'n effeithiol mewn gweithgareddau parhaus, tasgau ffocws a chyfleoedd i gyfoethogi'r dysgu.

Mae'r adeilad o ansawdd addas, yn cael ei gynnal yn dda ac mae'n ddiogel. Mae'r ardal allanol ddiddorol yn cael ei defnyddio'n bwrpasol. Mae ymarferwyr yn cynllunio cyfleoedd pwrpasol i'r plant ddatblygu eu medrau yn yr ardaloedd i dyfu a phlannu a'r cegin fwd, er enghraifft. Mae'r ymarferwyr yn defnyddio cyfleusterau'r ardal leol yn synhwyrol, fel siopau a'r llyfrgell, er mwyn atgyfnerthu'r cwricwlwm.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r arweinydd wedi sefydlu gweledigaeth glir ar gyfer creu gwelliannau sydd wedi'i seilio ar ddealltwriaeth gadarn o anghenion y lleoliad. Mae hyn yn rhoi cyfeiriad strategol cadarn i waith y lleoliad. Mae hi'n monitro'r ddarpariaeth ddyddiol yn drylwyr i sicrhau ei bod yn ddifyr a diddorol. Mae hi'n trafod cynlluniau a phwrpas y gweithgareddau dyddiol cyn dechrau'r sesiynau mewn cyfarfodydd defnyddiol.

Mae'r arweinydd yn hyrwyddo datblygiadau newydd yn bwrpasol ac yn cymell ymarferwyr i wneud gwelliannau mewn modd cefnogol. Mae hyn wedi arwain at ddefnyddio proffil y cyfnod sylfaen yn effeithiol, cofnodi asesiadau dyddiol ar gyfer bob plentyn yn drwyadl iawn a datblygu'r ardal allanol yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae gan yr arweinydd a'r ymarferwyr profiadol ddisgwyliadau uchel ar gyfer y ddarpariaeth a safonau plant.

Mae'r arweinydd yn sicrhau bod ymarferwyr yn deall eu rolau'n llawn ac yn gweithio'n ddiwyd fel tîm. Ar y cyfan, mae'r arferion goruchwylio a gwerthuso rheolaidd yn sefydlog. Mae'r systemau hyn yn sicrhau bod y defnydd gorau'n cael ei wneud o arbenigedd ymarferwyr, yn enwedig wrth ddarparu geirfa a phatrymau iaith safonol yn y Gymraeg ac wrth ddelio ag anghenion personol plant unigol.

Mae trafodaethau a chyfarfodydd staff rheolaidd yn galluogi ymarferwyr i rannu gwybodaeth am ddatblygiad plant unigol yn effeithiol. Mae'r arweinydd wedi llwyddo i greu amgylchedd lle mae plant ac ymarferwyr yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, ac felly'n rhoi o'u gorau.

Mae'r pwyllgor rheoli'n derbyn gwybodaeth defnyddiol am arferion y lleoliad yn rheolaidd gan yr arweinydd. Maent yn cyfarfod i drefnu gweithgareddau codi arian ac

yn monitro'r cyllid yn gyson. Mae'r prosesau gweinyddol yn drylwyr ac yn gefnogol i anghenion y lleoliad. Mae'r pwyllgor rheoli yn deall yn glir pa agweddau sy'n gryf yn y lleoliad a pha agweddau sydd angen eu gwella. Mae cofnodion cyson a manwl y pwyllgor rheoli yn adlewyrchiad clir a chadarn o'r dealltwriaeth gadarn sydd ganddynt o waith y lleoliad.

Mae'r lleoliad yn canolbwyntio'n dda ar flaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Maent yn datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh y plant yn llwyddiannus, yn ogystal â datblygu'r ddarpariaeth yn yr awyr agored yn bwrpasol. Maent yn cynllunio'n bwrpasol ar gyfer datblygu'r iaith Gymraeg, ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar fedrau llafaredd y plant.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae diwylliant cadarnhaol o hunanarfarnu yn treiddio trwy waith y lleoliad. Mae'r adroddiad hunanarfarnu yn nodi cryfderau'r lleoliad yn bwrpasol ac mae'r cynllun datblygu yn nodi'r meysydd i'w datblygu yn effeithiol.

Mae'r arweinydd a'i chydweithwyr wedi sefydlu trefniadau cyson i fonitro safonau'r plant a'r ddarpariaeth. Mae'r cydweithio cydwybodol sy'n weladwy'n ddyddiol, ynghyd â'r cyfarfodydd staff, yn cyfrannu at hyn yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae'r hunanarfarnu'n rhoi ystyriaeth bwrpasol i farn ymarferwyr, y plant, rhieni a gofalwyr, yr awdurdod lleol a Mudiad Meithrin. Mae'r wybodaeth sy'n deillio o'r prosesau hyn yn rhoi darlun llawn o waith y lleoliad.

Mae'r arweinydd yn cymryd camau pwrpasol i gynnal arferion rheolaidd a rhoi newidiadau ar waith drwy gynlluniau datblygu effeithiol. Mae hi a'r pwyllgor rheoli yn blaenoriaethu gwariant yn unol â'r camau a nodwyd ar gyfer gwella yn bwrpasol. Maent felly'n gwella'r ddarpariaeth trwy fabwysiadu gwahanol strategaethau a derbyn cyngor gwerthfawr wrth eraill, er enghraifft wrth ymateb i argymhellion yr arolygiad blaenorol.

Mae'r arweinydd a'r ymarferwyr yn agored i syniadau newydd ac yn barod i arbrofi â gwahanol strategaethau i lwyddo. Maent yn barod iawn i dderbyn awgrymiadau gan athrawon ymgynghorol yr awdurdod lleol a Mudiad Meithrin. Er enghraifft, mae'r cyngor ar sut i ddefnyddio proffil y cyfnod sylfaen a sut i ganolbwyntio ar fannau cychwyn y plant yn gwbl weithredol erbyn hyn ac, o ganlyniad, wedi datblygu'n llwyddiannus.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan y lleoliad ystod o bartneriaethau effeithiol. Mae'n gweithio'n llwyddiannus gyda'r partneriaid hyn i wella'r ddarpariaeth a safonau a lles plant. Er enghraifft, mae cysylltiadau cadarnhaol yn bodoli gyda'r ysgolion lleol. Mae'r cyfarfodydd rheolaidd a gynhelir i gefnogi'r trosglwyddo i fywyd ysgol yn bwrpasol. Mae'r trefniadau ar gyfer rhannu gwybodaeth bersonol ac asesiadau yn drefnus ac yn fuddiol i'r plant.

Mae'r ymarferwyr yn cymryd camau gweithredol i gynnwys rhieni a gofalwyr ym mywyd y lleoliad. Mae'r lleoliad yn hysbysu rhieni a gofalwyr yn rheolaidd am bob agwedd ar waith y lleoliad. Cânt eu hannog i gynnig eu barn eu hunain hefyd ar faterion i wella'r lleoliad trwy holiaduron, cyfryngau cymdeithasol a thrafodaethau cyson.

Mae cysylltiadau cymunedol y lleoliad yn cefnogi dysgu'r plant yn effeithiol. Mae hyn yn cynnwys digwyddiadau llwyddiannus i godi arian a chynigion am gyllid grantiau. Yn ychwanegol, mae'r lleoliad yn cefnogi elusennau lleol a chenedlaethol, sy'n meithrin tynerwch a gofal ymhlith y plant.

Mae'r lleoliad yn gweithio'n bwrpasol gydag asiantaethau allanol, fel yr awdurdod lleol a Mudiad Meithrin. Mae hyn yn atgyfnerthu'r perthnasoedd cadarnhaol sy'n bodoli ac mae'r sefydliadau hyn yn mynd ati i gefnogi dogfennaeth a pholisïau, hyfforddiant a chyngor rheolaethol yn effeithiol.

Mae'r ymarferwyr yn gweithio a chysylltu ag ystod eang o bartneriaid eraill, sy'n gwneud cyfraniad pwysig i wella'r ddarpariaeth. Mae'r rhain yn cynnwys asiantaethau sy'n cefnogi'r lleoliad gyda hyfforddiant cymorth cyntaf, cyrsiau hylendid bwyd, asesiadau risg, hyfforddiant y cyfnod sylfaen a diogelu plant.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r arweinyddiaeth yn anelu'n gyson tuag at wella pob agwedd o waith y lleoliad trwy reoli staff ac adnoddau'n bwrpasol. Maent wedi llwyddo i sicrhau bod gan y lleoliad ddigon o ymarferwyr cymwys gyda hyfforddiant cyflawn. Maent yn dîm sefydlog, cadarn ac effeithiol.

Mae'r arweinydd yn annog ymarferwyr i ddatblygu a rhannu eu gwybodaeth broffesiynol yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae'r lleoliad yn enghraifft lwyddiannus o gymuned ddysgu gadarnhaol, sydd â diwylliant o gydweithio diwyd rhwng ymarferwyr a phartneriaid eraill fel Dechrau'n Deg a'r ganolfan gydol oes.

Mae'r systemau rheoli perfformiad yn gadarn ac yn sicrhau profiadau dysgu diddorol ac arferion addysgu cadarnhaol. Mae'r lleoliad yn rheoli adnoddau'n greadigol i gefnogi'r dysgu. Mae hyn yn cynnwys y defnydd gwerthfawr o'r ardal allanol am weithgareddau corfforol, ymholiadau ac ymchwiliadau.

Mae gan yr arweinydd a'r pwyllgor rheoli ddealltwriaeth glir o'r gyllideb a'r heriau sydd ynghlwm â hi ers sawl blwyddyn. Maent yn blaenoriaethu gwariant yn ofalus gan nodi cyfrifoldebau a llinynnau amser synhwyrol. Maent yn creu gwelliannau cyson trwy drafod ac ariannu cynlluniau i wella'n bwrpasol. Mae'r lleoliad yn sicrhau bod y defnydd a wneir o gyllid yn cael effaith uniongyrchol ar y ddarpariaeth a deilliannau plant.

Mae'r lleoliad yn cynnig gwerth da am arian oherwydd y ddarpariaeth effeithiol a'r arweinyddiaeth bwrpasol.

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012 |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg |